Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor

21 Tachwedd 2016

Draft

Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 21 Tachwedd 2016 yn Neuadd Pentref Carmel

Yn bresennol- 8 aelod
Cyng. Alun Wyn Jones, Y Groeslon; Cyng. Gwyn Owen Jones, Y Fron; Cyng. David Marc Lewis, Y Fron;, Llandwrog; Cyng. Helen Hughes, Carmel; Cyng. Hywel J Owen , Y Groeslon; Cyng. Bryn Williams , Cyng. Alan Patterson, Carmel; Cyng. Robert Jones, Y Groeslon a'r Clerc

16-11-01 **1 Croeso'r Cadeirydd**

Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Robert Jones. Diolchodd i bawb am fynychu gan ystyried y tywydd garw.

Aeth syth yn ei flaen gyda'r rhaglen….

16-11-02 **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr aelodau canlynol -

Cynghorwyr Dyfed Williams, Llandwrog; Gerwyn Owen, Y Groeslon, Cyng. Robert Silyn Jones, Y Groeslon .

16-11-03 **3 Datgan Buddiant neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu**

Cyng. Bryn Williams - Eitem 7 ac 8 - yn aelod o Gymdeithas y Porwyr.

16-11-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (19 Medi 2016)**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

16-11-05 **5 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (17 Hydref 2016)**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

16-11-06 **6 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

16-11-07 **Toiled y Marine, Dinas Dinlle**

Adroddwyd gan y Clerc fod llythyr wedi ei anfon i Gyngor Gwynedd yn cadarnhau penderfyniad y Cyngor i gyfrannu £4,000 yn 2017-18 i gadw'r toiled ar agor. Bydd gofyn I'r Pwyllgor Cyllid ystyied a dod ac argymhelion gerbron os ydi'r cyfraniad yn cael ei gyllido o falansau ynteu ei ychwanegu at y praesept.

16-11-08 **Twmpathau Traffig, Sgwâr Carmel**

Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd yn cynnal archwiliad o'r twmpath ger Bryn Llifon

Sylwadau Aelodau-

Cyng. Helen Hughes

Awgrymu cysylltu gyda'r Swyddog perthnasol gan ofyn iddynt ystyried tynnu'r twmpath a gosod rhwystrau traffic 'stripiau coch' o'r Hen Coop i lawr at Garn Llywelyn ac o Rhianfa hyd at 3 Carmel Terrace.

Cyng. Alan Patterson yn cytuno gyda'r sylwadau uchod

***Penderfynwyd cysylltu gyda Chyngor Gwynedd gan ofyn i'r Cyngor ystyried tynnu'r twmpathau a gosod llinellau yn sgwâr Carmel i rwystro cyflymder traffig*.**

16-11-09 **Cyd-weithio Cynghorau Lleol**

Sylwadau Aelodau

Cyng. Alun Wyn Jones
Cyfarfod wedi ei drefnu ar 1 Rhagfyr i drafod cytundebau'r tri Chyngor (Llanllyfni, Llanwnda a Llandwrog) i geisio adnabod rhannu gwaith, ac arbed costau.

Cyng. Helen Hughes
Gofynnwyd i AWJ os bu trafodaeth ar gyfraniad o £4,000 ar gyfer cadw toiled Dinas Dinlle ar agor. HH o'r farn y dylid gofyn i'r Cynghorau eraill gyfrannu.

Cadarnhaodd AWJ nad oedd y mater wedi ei drafod yn y cyfarfod diwethaf.

Cyng. Hywel Owen - cyfarfodydd yn agored i bob aelod

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth gan ddisgwyl i'r aelodau oedd am fynychu am ddiweddariad yn Rhagfyr

16-11-10 **7 Eitem 7 ac 8 - Eitemau Eithriedig: Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 100A ac Atodlen 12A (Hawl i Wybodaeth) - Cau Allan y Wasg**

Cwyn yn Erbyn y Cyngor i Ombwdsmon Cymru

Penderfynwyd gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod dan ddarpariaeth Adran 100A (4) y Ddeddf uchod, tra bydd yr eitemau a ganlyn yn cael eu trafod, oherwydd eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

16-11-11 **8 Derbyn Cofnodion Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd 10 Tachwedd 2016**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

16-11-12 **Materion yn Codi o'r Cofnodion**

Adroddwyd gan y Clerc fod y Panel a sefydlwyd gan y Cyngor yn y cyfarfod arbennig wedi cyfarfod yn Neuadd Carmel yn syth wedi i'r cyfarfod arbennig ddod i ben.

Yn bresennol 'roedd Cyng. Robert Jones, Cyng. Alun Wyn Jones, Cyng. Gwyn Owen Jones a'r Clerc.

Dosbarthwyd copi o ymateb y Cyngor i'r cwynwr i bob aelod ar y noson, a thrwy e-bost.

Penderfynwyd yn unfrydol i'r Clerc anfon yr ymateb fel y lluniwyd gan y Panel i'r cwynwr gyda chopi i Swyddfa Ombwdsmon Cymru.

Rhoddwyd air o ddiolchi i aelodau o'r Panel gan Cyng. Hywel Owen

16-11-13 **9 Archwiliad Allanol – Cyfrifon 2015-16**

Cymeradwyaeth Cyfrifon y Cyngor 2015-16 - Datganiad Blynyddol - Tystysgrif o dan Reoliadau 8B (1) ac 8B(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y ei diwygiwyd)

Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr.

Nodwyd fod yr archwilydd wedi ei ardystio 1/11/15 nid 1/11/16.

Adroddwyd gan y Clerc fod Un Llais Cymru wedi cytuno ar awgrym y Clerc i ohebu gyda phob Cyngor Tref a Chymuned yng Nghymru gan ofyn y canlynol-

Mae'r Datganiad wedi ei arddangos ar y gwefan ac mae'r Hysbysebiad Cyhoeddus wedi cael ei harddangos ar hysbysfyrddau.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith.

Gohebiaeth

16-11-14 **10 Dyfodol Dyffryn Nantlle**

Trafodwyd y mater fel y nodwyd yn y Rhaglen

Cafwyd cadarnhad gan Cyng. Alun Wyn Jones y bydd ef yn mynychu ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn yn mis Rhagfyr.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth..

16-11-15 **11 Ceisiadau Cynllunio - Ceisiadau Tachwedd 2016**

16-11-16 **C16/1436/17/LL**

3 Bryn Teg, Lôn Pen Bonc, Y Groeslon. LL54 7UA

Trosi adeilad allanol i uned gwyliau hunan cynhaliol gydag estyniad unllawr a newidiadau strwythurol.

Penderfyniad y Cyngor – Gwrthod – ar sail nad yw y cynllun yn rhoi lle digonol i gerbydau

16-11-17 **C16/0703/17/MG**

Tir ger Bryn Llan , Llandwrog. LL54 5TA

Cais llawn a datblygiad i greu pwll gwanhad a draenio cysylltiol a datblygiad am 9 tŷ preswyl a ganiatawyd yn flaenorol dan gyfeirnod C16/0703/17/MG

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad

16-11-18 **C16/1257/17/RC**

Tir ger Bryn Llan , Llandwrog. LL54 5TA

Cais i ddiweddaru Cytundeb 106

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad

16-11-19 **C16/1202/17RC**

Cilfynydd, Carmel LL54 7SA

Cais i dynnu Cytundeb 106 oddi ar eiddo a ganiatawyd o dan C08A/0436/17/LL

Penderfyniad y Cyngor - Gwrthod – ar y sail y caniatawyd y cais yn amodol ar dderbyn Cytundeb 106

16-11-20 **C16/1353/17/HT**

MGW Coal Merchants, Llifon Coal Yard, Y Groeslon LL54 7DE

Gosod twr 8medr 'lattice' gyda 3 antenna, 1 lloeren cyfathrebu ar ei ben, a 2 gabinet offer. 1 cabinet mesur datblygiad cysylltiol sy'n cynnwys ffens 2.1medr o uchder

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad yn amodol fod y mast wedi ei leoli cyn belled o Tal Rhes Glynllifon ag sy'n bosib.

16-11-21 **C16/1289/17/LL**

2 Rhes Bryn Twrog, Y Fron LL54 7BA

Cais i estynnu modurdy

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad

16-11-22 **C16/1250/17/LL**

Fferm Tanyffordd, Carmel LL54 7SB

Codi adeilad amaethyddol aml bwrpas

Draft

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad

Materion Ariannol

16-11-23 **13 Derbyniadau i 31 Hydref 2016**

Manylion	Cyfanswm
dim	

16-11-24 **14 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor -**

Manylion	Swm heb TAW	Cyfanswm y Taliad	Rhif Siec
Cyflog y Clerc - Tachwedd 2016	£420.13	£420.13	Uniongyrchol
HMRC - Treth Incwm Tachwedd 2016	£111.20	£111.20	Uniongyrchol
Lwfans Clerc - Tachwedd 2016	£30.00	£30.00	Uniongyrchol
Selwyn Jones – Cytundebau Torri Gwair 2016	£7,140.00	£7,140.00	101702

16-11-25 **15 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf**

Cyfarfod o'r Cyngor - Nos Lun, 19 Rhagfyr 2016
Pwyllgorau a Gweithgorau - i'w gadarnhau

16-11-26 **16 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn (19 Rhagfyr)**

Dim materion yn codi

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 yr hwyr	
Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -	
	Cyng. Robert Jones, Cadeirydd y Cyngor
Dyddiad -	

f

Draft